

## Gwasanaeth Sefydlu y Parchedig Nicholas Bee a Chomisiynu Mr Corey Hampton a Mrs Catrin Hampton

Capel Newydd, Llanddarog Medi'r 22ain 2018

Roedd dydd Sadwrn, Medi'r 22ain eleni yn ddyddiad tra phwysig yng nghalendr Henaduriaeth Myrddin a Gofalaeth y Gwendraeth. Yn wir roedd yn ddiwrnod cofiadwy i'r ardal gyfan.

Yr achlysur oedd sefydlu'r Parchedig Nicholas Bee a hefyd comisiynu Mr Corey Hampton fel Cynorthwy-ydd Gweinidogaethol a Mrs Catrin Hampton fel Gweithwraig Plant, Ieuenctid a Theuluoedd.

Cafwyd cynulleidfa niferus a theilwng yn yr oedfa gyda naws hynod o fendithiol a llawen i'r prynhawn cyfan.

Llywydd yr oedfa oedd Llywydd Henaduriaeth Myrddin sef Mr Glynog Davies, ac fe osododd yntau awyrgylch hyfryd i'r prynhawn o'r cychwyn cyntaf. Cyflwynwyd yr emynau gan Miss Sian Cassell, Babell Zion Newydd, Miss Mary Richards, Salem, Llangyndeyrn, Mrs Joanna Wright, Peniel, Foelgastell a Mr Peter Evans, Jerusalem, Penygroes, gyda'r canu cynulleidfaol argyhoeddedig yn ategu at naws arbennig yr oedfa. Cyflwynwyd darlenniad gan Miss Anne Davies, Soar, Pontyberem a gweddfau



gan Miss Heulwen Ebenezer, Capel y Drindod, Cross Hands, Miss Beti Griffiths, Llanilar a hefyd Steffan a Gwenno Morris, Llandysul.

Roedd hi'n braf croesawu cynrychiolaeth o Sir Aberteifi i Gapel Newydd, Llanddarog i gefnogi'r Parchedig Nicholas Bee, ac fe gyflwynwyd tysteb iddo yn hyfryd o ddeheuig gan yr Athro Iwan Williams, Lledrod.

Cyflwynwyd y Gweithwyr yn ddiwyll iawn gan Mrs Sarah Morris, Llandysul.

Mr Glynog Davies, Llywydd yr Henaduriaeth oedd yn gyfrifol am lywio'r sefydlu a'r comisiynu yn ystod yr oedfa, ac fe wnaed hynny gydag urddas.

Mae aelodau'r Ysgol Sul yng Nghapel Newydd bob amser yn destun balchder i'r Eglwys, ac roedd eu cyfraniad graenus, o

(parhad ar dudalen 2)

## Anrhydeddu a chydabod cyfraniad oes

Ar nos Fercher 3ydd o Hydref cynhaliwyd seremoni, o dan nawdd Dinas Lerpwl, i anrhydeddu'r Parch Ddr Athro D. Ben Rees, yn Ddinesydd er Anrhydedd. Cydnabyddiaeth deilwng ydoedd i'r oes o wasanaeth ganddo i ddinas Lerpwl a'i gyfraniad helaeth i fywyd Cymraeg a chrefyddol y ddinas, ynghyd â'i gyfraniad i fywyd cymunedau ethnig a lleiafrifol ehangach yn y ddinas.

Wrth enwebu Dinasyddion sydd i'w anrhydeddu caiff nifer o feini prawf eu hystyried gan Bwyllgor Anrhydeddau Cyngor y Ddinas. Ystyrir:

- Bod gwaith yr unigolyn a enwebir yn cael ei wneud y tu mewn i'r Ddinas
- Bod yr unigolyn yn enghraifft o ymrwymiad anhunanol a pharhaus i wasanaeth yn eu cymuned.
- Bod gweithredoedd yr unigolyn wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i



Dr D. Ben Rees gyda'r Arglwydd Faer, y Cynghorydd Christine Banks.

Llun gan Ray Farley

fywyd neu fywydau eraill dros gyfnod o amser.

- Bod cyfraniad a gwaith yr unigolyn yn eithriadol.

Dim ond un neu ddau o bobl sy'n derbyn yr anrhydedd hon yn flynyddol. Mae ei

anrhydeddu yn fraint fawr ac yn gydnabyddiaeth bersonol i'w gyfraniad i'r Ddinas.

Llongyfarchwn Dr Ben Rees yn fawr. Dywedodd yr Arglwydd Faeres y Cynghorydd Christine Banks:

'Mi wn fod ei gymuned yn falch iawn o'i gyfraniad a'i arweiniad. Bu cyswllt agos rhwng Cymru a Lerpwl ac mae'r cysylltiadau yna'n parhau hyd heddiw.

Mae'r Parch. Rees yn wir fab i Gymru ac i Lerpwl ac fe fu'n llysgennad ffantastig i'r ddau ohonynt.'

Dywedodd Dr. Ben Rees ei fod 'uwchben fy nigon wedi i mi gael fy nghydabod gan y ddinas am gyflawni gwaith dros y wlad a garaf. Rwy'n eithriadol o falch fy mod wedi cael y cyfle i hybu ac i gefnogi'r gymuned Gymraeg yn Lerpwl. Mae cael fy nghydabod yn y modd hwn yn fy llenwi efo gostyngeddrwydd gwirioneddol.'

# Swnami Sulawesi

**Ni all unrhyw un ohonom a welodd luniau ar y teledu o'r Swnami yn Sulawesi, wedi'r ddaeargryn oddi ar arfordir Indonesia, fethu â chael ein cyffwrdd gan arswyd sefyllfa'r boblogaeth yno.**

Yn ôl adroddiadau cyrhaeddodd y tonnau uchder o 18 metr. Wrth baratoi'r ysgrif hon amcangyfrifir bod dros 1,400 o bobl wedi eu lladd ond disgwylir i'r niferoedd barhau i gynyddu.

Er mor arswydus yw'r ffigyrau hyn, mae'r ffaith fod oddeutu 1.6 miliwn o bobl (dros hanner poblogaeth Cymru) wedi cael eu heffeithio gan y trychineb. Collodd rhai eu cartrefi a bellach maent yn ffoaduriaid yn eu gwlad eu hunain, yn ddiymadferth, yn ceisio dod i hyd i nwyddau i fwydo'u teuluoedd eu hunain ac i ail-adeiladu eu bywydau. Dinistriodd y swnami purfeydd dwr ac ynni fel nad oes ddŵr glan na phŵer trydan ar gael.

Onid yw trychineb o'r fath yn gofyn am ryw ymateb gennym?

'Trasiedi!'

Ydy, mae pawb yn gytûn am hynny. Ond sut ydym ni, ddilynwyr Iesu Grist, sydd uwchben ein digon o gymharu â thlodion y ddaear, i fod i ymateb yn wyneb hyn oll i gyd?

## Gwasanaeth Sefydlu (parhad)

dan gyfarwyddyd medrus Awen Voyle, yn sicr yn ychwanegu at naws arbennig yr oedfa, ac yn adlewyrchu pwysigrwydd a statws yr ifanc ym mywyd yr Eglwys.

Mr Glynog Davies oedd yn gyfrifol am groesawu ar ran yr Henaduriaeth, a Miss Heulwen Ebenezer, Llywydd yr Ofalaeth fu'n croesawu ar ran yr Ofalaeth. Bu'r ddau ohonynt yn datgan eu llawenydd gydag arwyddocâd yr achlysur pwysig hwn.

Yn dilyn y croesawu, cawsom bregeth effeithiol gan y Parchedig Meirion Morris wrth iddo osod heriau bod yn Gristion yn yr unfed ganrif ar hugain, neges sy'n siwr o rhoi testun cnoi cil am beth amser i bob yr un ohonom.

I gloi'r oedfa, offrymwyd y fendith gan Mr Glynog Davies, Llywydd yr Henaduriaeth.

Yn dilyn yr oedfa, cafwyd te yn Neuadd y Pentref lle roedd cwmni Cegin Fach y Wlad wedi paratoi gwledd ar ein cyfer.

Manteisiwyd ar y cyfle yn y fan honno i gael sgwrs ddfyfr a chymdeithasu gydag aelodau'r amrywiol gapeli yn ogystal ag aelodau o'r gymuned.

Diwrnod felly o ddathlu a chroesawu Gweinidog newydd i'r Ofalaeth, ynghyd â dau weithiwr i gynorthwyo gyda'r gwaith.

Dymuniad yr Ofalaeth a'r Henaduriaeth yw bod y tîm newydd hwn yn cael pob cefnogaeth a rhwyddineb i wasanaethu'r Arglwydd yn yr ardal glos a chymwynasgar hon.

Dymuniadau gorau iddynt yn eu gwaith.

**Meinir Richards**

Faint o ddarllenwyr y Goleud, er enghraifft, sy'n medru dweud, go iawn, y byddai rhoi £5 neu £10 yn achosi gymaint o dolc yn ein hadnoddau fel na allem fforddio byw yr wythnos nesaf hebdo? (Ac oes, mi wn, mae yna bobl yng Nghymru fyddai'n gorfod dweud na allent fforddio hyd yn oed gymaint â hyn!)



Diau y bydd amser i ddoethion drafoed 'problem dioddefaint' a cheir digonedd o amser i bawb i leisio'i barn. Ond i bobl a gollodd bopeth, sy'n gwylo'i hanwyliaid yn dioddef hyd yn oed yn awr, sy'n byw heb adnoddau a heb fodd i liniaru eu dioddefaint, problem byd cyfforddus yw trafodaethau am 'Ddioddefaint'.

Fe allwn, bob un ohonom, ddychmygu i'r rhai a gollodd bopeth bod 'heddiw' yn ddigon o gwestiwn ynddo'i hun.

Pan welodd Iesu'r tyrafoedd, yn ôl Marc, 'tosturiodd wrthynt am eu bod fel defaid heb fugail.' Ac wedi bod yn sôn wrthynt am efengyl y Deyrnas a hithau'n nosi a

## Gwledd ar Foel Rhiwlas

Dyma lun o blant Ysgol Sul Rhiwlas, ger Croesoswallt, yn mwynhau picnic ar Foel Rhiwlas ddiwedd yr haf. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Ac edrychwn ymlaen am dymor newydd efo'r plant.

**Carys Evans**



5,000 o bobl lwglyd o'i flaen trodd Iesu at ei ddisgyblion. 'Rhowch chi rywbeth i'w fwyta iddynt...' meddai.

Gweld anhawster wnaeth y disgyblion, gan sylweddoli maint eu hanallu, cyfyngder eu hadnoddau yn ogystal â'i gwendid.

Fe all y byd ddiodef o 'compassion fatigue' y blinder hwnnw o geisio ymateb i anghenion y ddynoliaeth.

Er na allwn ymateb i bob gofyn a ddaw atom ar raglenni newyddion ein dydd, ym mhob man, na phob amser, mae disgwyliaidau geiriau'r Testament Newydd yn parhau i fod yn gwbl syml, dealladwy ac ymarferol.

Roedd eglwys fechan yng Ngalatia eisoes wedi cyfrannu i helpu tlodion Jerwsalem ar adeg o newyn. Er hyn, meddai'r Apostol Paul,

*'Peidiwn â blino ar wneud daioni, oherwydd cawn fedir cynhaeaf yn ei amser; dim ond inni beidio â llaesu dwylo. Felly, tra bydd amser gennym, gadewch inni wneud da i bawb, ac yn enwedig i'r rhai sydd o deulu'r ffydd.'* (Galatiaid 6:9-10)

Yn wir, mae'r anogaeth 'A pheidiwch chwithau, gyfeillion, â blino ar wneud daioni' (2 Thesaloniaid 3:13) yn parhau i atsain ar hyd canrifoedd cred.

Ond y mae geiriau loan yn fwy sboreiddiol fyth. Y mae ein hymateb i angen yn efelychiad o gariad Duw yn Iesu Grist, meddai.

*'Dyma sut yr ydym yn gwybod beth yw cariad: am iddo ef roi ei einioes drosom ni. Ac fe ddylem ninnau roi ein heinioes dros ein cyd-aelodau. Pwy bynnag sydd â meddiannau'r byd ganddo, ac yn gweld ei gyd-aelod mewn angen, ac eto'n cau ei galon yn ei erbyn, sut y mae cariad Duw yn aros ynddo? Fy mhlant, gadewch inni garu, nid ar air nac ar dafod ond mewn gweithred a gwirionedd.'*

Nid pwyslais diwinyddol mo ufudd-dod. Nid mater o farn yw 'cariad'. Ond mater o reddf gras yn ymateb i brofiad o ras, profiad o gariad yn mynegi ei hun mewn cariad, ufudd-dod sy'n costio am mai dyna beth yw cariad.